

## Llais y Llywydd: Amy Wadge

Y gantores â'r 'sgwennwr caneuon Amy Wadge yw Llywydd y Dydd, dydd Llun yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017.

Merch o Fryste yn wreiddiol yw Amy, sydd bellach wrthi'n dysgu Cymraeg ac wedi ymgartrefu y tu allan i Bontypridd gyda'i phlant a'i gŵr. Wedi gyrfa lwyddiannus fel cantores yng Nghymru, gan ennill gwobr Artist Benywaid Gorau ddwywaith yng Ngwobrau Cerddoriaeth Cymru, mae Amy wedi profi llwyddiant nodedig yn ryngwladol. Mwyaf nodedig mae ei phartneriaeth 'sgwennu gyda'r canwr Ed Sheeran, ac enillodd eu cân aeth i rif 1 yn y siartiau, *Thinking Out Loud* ddwy wobr Grammy yn yr Unol Daleithiau yn 2015.

Mae Amy yn teimlo'n angerddol dros y celfyddydau yng Nghymru, ac mae hi'n falch iawn o fod yn rhan o Eisteddfod yr Urdd eleni ym Mhen-y-bont.

### Beth oedd eich profiad cyntaf o'r Urdd?

Daeth fy mhrofiad cyntaf drwy fy mhlant. Tyfodd fy ngwr, Alun ap Brinley, i fyny gyda'r Urdd, felly roedd yn awyddus iawn i'r merched gael yr un profiadau. Mae'r Urdd bellach yn ran mawr o'u bywydau ac maent wrth eu boddau.

### Sut byddwch chi a'r teulu yn rhan o'r Eisteddfod pan ddaw i Ben-y-bont, a sut mae e wedi bod yn rhan o'ch bywyd dros y blynnyddoedd diwethaf?

Eto, byddwn ni'n rhan ohono drwy'r plant – fy merch hynaf yw un o'r prif gymeriadau yn *Bracchi*, y sioe iau, ac mae hi hefyd yn aelod o'r côr a chystadleuaethau grŵp eraill gyda'r ysgol. Bu hi a'i chwaer hefyd yn cystadlu yn rowndiau cynnar yr Eisteddfod. Mae'r ddwy yn caru actio a chanu, felly bydd yn dod yn beth rheolaidd dros y blynnyddoedd sydd i ddod, ond rydyn ni'n gyffrous iawn ei bod yn ein hardal ni eleni.

### Pa gystadleuaeth newydd hoffech ei weld yn rhan o'r Eisteddfod?

Gan mai ysgrifennu caneuon yw fy mhroffesiwn, byddai'n wych gweld categori ysgrifennu caneuon cyfoes.

### Disgrifiwch ardal Pen-y-bont ar Ogwr i bobl sydd erioed wedi bod yna o'r blaen

Ardal cynnes a chyfeillgar yw Pen-y-bont, sydd â llawer i'w gynnig i bobl sy'n ymweld am y tro cyntaf.

### Beth, yn eich barn chi, yw'r peth gorau am yr Urdd?

Mae gweld plant yn dysgu sut i weithio fel rhan o dîm, a rhoi eu hamser i greu rhywbeth rhyfeddol wastad yn mynd i fod yn rhywbeth positif. I mi, rhan bach yn unig yw'r elfen gystadleuol, mae mwy am wneud ffrindiau a bod yn rhan o'r hyn sy'n gwneud Cymru yn wych – barddoniaeth, drama a cherddoriaeth.

## **President of the Day: Amy Wadge**

The singer and songwriter Amy Wadge is the President of the Day for Monday at the Urdd National Eisteddfod, Bridgend Taff-Ely 2017.

Originally from Bristol, Amy, who is now learning Welsh, lives just outside Pontypridd with her children and husband. Following a successful career as a singer in Wales, twice winning the Best Female Artist award at the Welsh Music Awards, Amy has had significant international success. Most notable is her songwriting partnership with singer Ed Sheeran, their number 1 song, *Thinking Out Loud* winning two Grammy awards in the US in 2015.

Amy is passionate about the arts being represented in Wales and is honoured to be part of this year's Urdd Eisteddfod in Bridgend.

### **What was your first experience of the Urdd?**

My first experience has been through my children. My husband Alun ap Brinley grew up with the Urdd, so he was keen for the girls to be part of it and they are both already massively involved and love it.

### **How will you and your family be involved when the Eisteddfod visits Bridgend, and how has it been part of your life for the last few years?**

Again, our involvement starts with the kids - my eldest is one of the leads in *Bracchi* the junior show and is also in the choir and various other group things with the school. She and her sister also competed in the earlier rounds of the Eisteddfod. They both love acting and singing so it will become a regular thing each year, but we are so excited that it's in our area this year.

### **Which new competition would you like the Urdd to introduce?**

As songwriting is my profession, it would be wonderful to see a contemporary songwriting category.

### **Describe the Bridgend area to people that have never visited**

Bridgend is a warm and friendly place, which has a lot to offer people visiting for the first time.

### **What, in your view, is the best thing about the Urdd?**

Kids learning to work as part of a team and dedicating their time to make something wonderful is always going to be a positive thing. For me, the competition element is only part of it, it's more about making friends and being part of something that makes Wales great - poetry, drama and music.